SFLLO39

Defnyddio technoleg mewn gweithrediadau logisteg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â defnyddio technoleg mewn gweithrediadau logisteg. Mae'n cynnwys sicrhau bod cydweithwyr yn gwybod sut i ddefnyddio technoleg a nodi gwelliannau posibl yn y defnydd o dechnoleg.

Mae'r safon hon yn berthnasol i'r holl weithredwyr ar bob lefel mewn gweithrediadau logisteg. Gallai gweithredwyr, er enghraifft, fod yn gweithio ym maes warws a storio, trafnidiaeth, neu anfon cludiant ymlaen. Gallai'r safon fod yn berthnasol i'r rheiny sy'n gofalu am nifer o staff ac sydd â chyfrifoldeb rheolwr llinell.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cadarnhau bod y defnydd o **dechnoleg** mewn gweithrediadau logisteg yn cael ei ddefnyddio yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. dilyn amserlenni cynnal a chadw a nodwyd ar gyfer **technoleg** a ddefnyddir mewn gweithrediadau logisteg yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr a gweithdrefnau sefydliadol
3. cadarnhau bod **cydweithwyr** sy'n defnyddio'r **dechnoleg** yn deall sut i'w defnyddio ac yn gymwys yn ei gweithredu
4. monitro **cydweithwyr** i gadarnhau bod y **dechnoleg** yn cael ei defnyddio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchydd a gweithdrefnau sefydliadol
5. nodi unrhyw anghenion hyfforddiant sy'n gysylltiedig â defnyddio **technoleg a** threfnu hyfforddiant perthnasol
6. nodi ffyrdd y mae'r defnydd o **dechnoleg** wedi gwella gweithrediadau logisteg yn eich sefydliad, ac argymell unrhyw welliannau posibl pellach
7. dyfeisio ffyrdd o ymateb i fethiannau mewn **technoleg** mewn gweithrediadau logisteg
8. ymchwilio a monitro **technoleg** newydd ac sy'n dod i'r amlwg y gellid ei defnyddio i wella effeithlonrwydd gweithrediadau logisteg yn eich sefydliad
9. nodi unrhyw **faterion** sy'n deillio o ddefnyddio **technoleg** mewn gweithrediadau logisteg a gweithredu i ymateb iddynt
10. cofnodi gwaith a wnaed yn y system wybodaeth a chofnodi berthnasol, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
11. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol a'r holl **ofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu** perthnasol wrth ddefnyddio **technoleg** mewn gweithrediadau logisteg

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y **dechnoleg** ar gyfer gweithrediadau logisteg sydd ar gael ac yn cael ei defnyddio yn eich sefydliad
2. cyfarwyddiadau'r cynhyrchydd a gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw **technoleg** a ddefnyddir gan eich sefydliad ar gyfer gweithrediadau logisteg
3. sut i ymchwilio i'r datblygiadau technolegol diweddaraf mewn gweithrediadau logisteg
4. goblygiadau newidiadau mewn **technoleg** a'r gost i'r sefydliad
5. y dulliau o sicrhau bod y **dechnoleg** yn cael ei defnyddio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchydd a gweithdrefnau sefydliadol
6. sut i nodi ac ymateb i anghenion hyfforddiant sy'n gysylltiedig â defnyddio **technoleg** yn eich sefydliad
7. y cyrff rheoliadol perthnasol ar gyfer gweithrediadau logisteg a'u gofynion cydymffurfio yn ymwneud â defnyddio **technoleg**
8. sut i ddyfeisio ffyrdd o ymateb i unrhyw fethiant mewn **technoleg** mewn gweithrediadau logisteg
9. y rolau, cyfrifoldebau a systemau rheoli sy'n berthnasol i weithrediadau logisteg yn eich sefydliad
10. y camau i'w cymryd pan fydd materion s'yn cael eu nodi yn deillio o ddefnyddio **technoleg** mewn gweithrediadau logisteg
11. y wybodaeth a'r systemau cofnodi, y systemau monitro a'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan eich sefydliad
12. y gweithdrefnau sefydliadol a'r holl **ofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu** yn ymwneud â defnyddio **technoleg** mewn gweithrediadau logisteg

Geirfa

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu: rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, rheoliadau amser gwaith, rheoliadau trafnidiaeth, arferion gwaith, gweithdrefnau gweithredu, canllawiau diwydiant

Materion: diffyg hyfforddiant, camweithrediad, rhaglenni atgyweirio

Technoleg: systemau rheoli stoc, systemau rheoli warws, offer codi a thrin, offer cynllunio llwybr, meddalwedd cyfrifiadurol, Offer Cyfrifiadurol Amseru Llwybr Cerbydau (CVRS)

Defnyddio technoleg mewn gweithrediadau logisteg

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2018
Indicative Review Date	Ionawr 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logistics
RCU gwreiddiol	SFLLO39
Galwedigaethau perthnasol	Gweithredu a chynnal a chadw trafnidiaeth; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu; Gyrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Gweithrediadau Logisteg
Geiriau Allweddol	technoleg; cynnal a chadw; systemau; gwybodaeth